Chwefror 2008 **Rhifyn 164**



Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb. *Effesiaid 4:4*

GYDA'N GILYDD AR DAITH Y GRAWYS

Effesiaid fydd maes y myfyrdodau Cymraeg undebol yn ystod y mis

Gair gan y Bugail

Pregeth y Bugail nos Sul Ionawr 6 (Gŵyl Ystwyll)
Nadolig drwy'r flwyddyn

Heddiw maent yn dathlu'r Nadolig yn rhai o eglwysi hynaf y byd. Daeth Gŵyl yr Ystwyll (Epiffani) hefyd i'w hadnabod fel Gŵyl y Goleuni: goleuni'r efengyl i'r cenhedloedd ac yn arbennig wrth gofio'r doethion. Cyn i ni gadw'r addurniadau a chyfrif y cardiau a diolch am yr anrhegion, dyma gyfle i ofyn *Beth ydym am ei gario o'r Nadolig ymlaen drwy'r flwyddyn ?* Fe all y doethion ein cynghori.

1.**Y paratoi a'r addoli.** Taith faith i addoli a gafodd y doethion. Cyn cyrraedd yr oeddynt wedi ymglywed â Duw yn llefaru trwy ei gread, ond y mae'n amlwg eu bod hefyd wedi mynd ati i astudio Ysgrythyrau'r Iddewon er mwyn cael deall ac amgyffred yr hyn oedd yn eu disgwyl ar derfyn y daith. Mae Mathew yn ein hatgoffa mai tu ôl i Ŵyl y Goleuni roedd canrifoedd o baratoi a disgwyl a chwilio. Yr ydym ninnau yn rhoi amser i baratoi ar gyfer y Nadolig. Oni ddylai'r un egwyddor fod yn wir am ein haddoli? (Peth arall, wrth gwrs, yw trefnu'r amser i baratoi gyda phlant – gofynnwch i athrawon yr Ysgol Sul!)

I gyfoethogi a dyfnhau ein haddoli rhaid paratoi a rhoi amser. Arwynebol fydd addoli brysiog, achlysurol. Wrth blygu, neu er mwyn plygu, mae'n rhaid i ninnau *roi* – rhoi amser i fyfyrio ac ymglywed â chyfoeth y Gair sy'n cyfoethogi addoli.

2. **Rhaid cario'r llawenydd drwy'r flwyddyn.** Ac yr oeddynt ***yn llawen iawn***, meddai Mathew am y doethion. Efallai nad ydym ym meddwl am y doethion fel rhai llawen: barfog, difrifol, gwybodus, athronwyr, seryddwyr, boed yn seryddion, ser-ddewiniaid neu frenhinoedd – *syber* fyddai'r disgrifiad. Ac mae syber yn ddisgrifiad da yn aml o'n crefydd ni. Baich ar adegau; dyletswydd ar adegau eraill; anfoddog ar adegau eraill. Ond, yn weddol gyson, prin o lawenydd. Mae anghydffurfiaeth, wrth gwrs, mor *eiriog* ac er ein bod yn falch o symlrwydd ein haddoldai, mae cymaint o'n capeli a'n crefydda, yn ddi-lawenydd.

Y gwir yw fod y doethion wedi dargafnod ystyr llawenydd yn y galon. Nid yw'n rhaid i hwnnw olygu joli-ho-hapi-clapi, ond mae'n rhaid iddo fynegi pleser a mwyniant a rhyfeddod a diolch – dyna hanfon llawenydd. Meddyliwch am 40,000 o oedolion ifanc rhwng 25 – 45 oed, gyda'u plant o 1-16 oed, yn treulio 3 noson yn Genefa tros y calan eleni. Nid Cristnogion carismataidd oedd rhain ond pobl oedd wedi bod yn Taizé yn ystod y flwyddyn, ple mae'r addoli mor syml â chapel yng Nghymru. Calon y tridiau oedd gweddïo ac ymdawelu (ia, a'r plant), myfyrio ar y Beibl a chymdeithasu. Dim mwy na hynny. Meddai un o drigolion Genefa: *Mae'r ddinas wedi bod yn llawn llawenydd.*

3. **Fe aeth y disgyblion yn ôl i rannu ac i dystio i'w ffydd mewn diwylliant gwahanol iawn.** Wyddom ni ddim beth ddigwyddodd iddynt, wrth gwrs, ond pwrpas yr hanes yw dweud eu bod wedi mynd â'r efengyl i ddiwylliant gwahanol, i bobl wahanol. Rhaid chwilio am yr iaith addas, y ffordd addas a'r cyfle iawn. Mae hynny yn golygu cymryd ein ffydd a'n cymdeithas yn gwbwl o ddifrif. All ein ffydd, yn y cyfnod hwn, ddim bod yn breifat – mae'n rhaid iddi fod yn gyhoeddus.Mae'n rhaid iddi fod yn bersonol, wrth gwrs, sy'n wahanol iawn i 'preifat', ond mae'n rhaid iddi fod yn gyhoeddus hefyd. Her fawr yr eglwys yw cyflwyno'r ffydd yn y byd cyhoeddus gan gofio mai yn y byd cyhoeddus hwnnw mae'r eglwys a'r efengyl yn cael ei hanwybyddu neu ei beirniadu.Wrth gofio am y cynulleidfaoedd mawr oedd yn yr eglwysi tros y Nadolig (gan gynnwys Capel y Morfa – y gynulleidfa fawr iawn bore Nadolig a'r nos Sul cyn y Nadolig); wrth feddwl am y dyhead dirgel yn ein cymdeithas fregus am werthoedd ysbrydol; wrth feddwl am dasg yr eglwys yn y Gymru hon – ple rydym yn cael cymaint, yn gwybod pob peth ac yn gwarchod ein hawliau; wrth feddwl am hyn i gyd mae'n anodd peidio cofio am y geiriau roddodd W.H.Auden i'r pedwar Gŵr Doeth yn ei Oratorio Nadolig: *1) To discover how to be **living** now, is the reason we follow this star. 2) To discover how to be **loving** now is the reason we follow this star. 3) To discover how to be **forgiving** now is the reason we follow this star. 4) To discover how to be **human** now is the reason we follow this star.*

Mae'r gwaith, yr her a'r cyfle hwn yn rhywbeth na fedrwn roi i'w gadw tan y Nadolig nesaf. Os am ddilyn Iesu, a thystio iddo, a chredu ei fod yn Waredwr i pob oes, yna does dim cwestiwn o'i adael ym Methlehem.

Blwyddyn newydd dda yn llawn o Nadolig y doethion i chi.

Pryderi



Fel y gwyddoch, mae Pryderi wedi penderfynu ymddeol o'i weinidogaeth yng Nghapel y Morfa. Ei ddymuniad yw mai Sul y Pasg, 23 Mawrth, fydd ei Sul olaf fel ein bugail. Ar y Sul cyntaf yn Ebrill, sef 6 Ebrill, cynhelir oedfa yn y bore, o dan arweiniad aelodau'r eglwys, i ddiolch iddo ef ac Eirwen am eu gwasanaeth a'u harweiniad dros y blynyddoedd. Am 5.00 cynhelir gwasanaeth arbennig gydag achlysur cymdeithasol i ddilyn. Achlysur yw hwn i aelodau'r eglwys ac i bawb sy'n addoli yng Nghapel y Morfa ac yn Ebeneser, a bydd llywydd yr Henaduriaeth gyda ni. Gobeithio'n fawr y byddwch yn bresennol; ceir manylion llawn yn rhifyn nesaf Perthyn.

Y blaenoriaid.

Newyddion

Cydymdeimlo. Yr ydym yn cydymdeimlo ag Olwen James, 5 Greenfield St. a gollodd ei mab Roger yn frawychus o sydyn yn 55 oed tros gyfnod y Nadolig. Yr oedd Roger yn byw gartref gyda'i fam.

Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â **Brian Thomas** a gollodd ei dad, y Parchedig Arwyn Thomas, Hwlffordd ac â Mary a Caryl a Nia ar golli tad-cu.

Yn ystod mis Rhagfyr hefyd fe gollodd **Bet Evans** ei chwaer Elsie ac fe fu John Vincent, gweddw Elsie, farw yn ystod mis Ionawr.

Dymuno'n dda. Ar ôl misoedd yn yr ysbyty yr ydym yn falch iawn fod **Valmai Owen** bellach yn ol yn ei chartref ar y Waun. Ar y llaw arall mae **Dilys Thomas** wedi symud o Ysbyty Tregaron i Blas Cwmcynfelin ac yr ydym yn anfon ein cofion ati.

Llongyfarchiadau i Pam Wheeler a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 yn ystod cyfnod y Nadolig. Y mae Pam bellach ymysg y nifer gynyddol o bobl sydd yn ymuno â'r clwb bywiog ac ifanc eu hysbryd hwn!

Diolch i bawb a gyfranodd mewn gwahanol ffyrdd i ddathliadau'r Nadolig a'r Adfent. Bu'n ŵyl llawn a bendithiol, a chafwyd digon o gyfle i ddathlu gwir ystyr a llawenydd yr ŵyl.

Newyddion Ebeneser

Boed inni yn aelodau a gwrandawyr gyfarch 2008 mewn ysbryd llawen gan ymroi gydag egni a brwfrydedd. Ers Nadolig mae'r tywydd a salwch wedi amharu ar bresenoldeb nifer o'n ffyddloniaid ar brynhawn Sul.

Brynhawn Sul, 23 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig dan arweiniad ein gweinidog, Pryderi, pryd cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau a gwrandawyr mewn rhaglen fendithiol a baratowyd ganddo.

Dymuniadau a chofion gorau i Ffion a Catrin Morgan, y naill yn dechrau swydd newydd fel Swyddog Dilysiant yng Nghofrestrfa Prifysgol Cymru. Swydd sy'n cynnwys llawer o deithio yn trefnu pwyllgorau mewn gwahanol brifysgolion sydd yn awyddus i gynnig cyrsiau a roddir gan Brifysgol Cymru. Ymweld â Llundain, Fflorens a Vancouver o hyn i fis Gorffennaf. Mae Catrin wedi dechrau ymarferion yng Nghaerfyrddin ar gyfer y ddrama *Y Pair* sydd yn mynd o amgylch Cymru am dros fis: yn Aberystwyth, 12/13 Chwefror. Mae Catrin ar hyn o bryd yn rhan o gyfres newydd ar S4C *Teulu* sydd wedi dechrau ymddangos ar nosweithiau Sul. Pob lwc i'r ddwy ohonoch.

Braf yw gweld rhai o'r aelodau a gwrandawyr yn ôl yn yr oedfa ar brynhawn Sul ar ol cyfnodau o salwch. Ar ddechrau

blwyddyn fel hyn, cofiwn yn garedig am Mr Robert John Davies yng Nghartref Cwmcynfelin; Mrs Laura Rumsey-Williams yng Nghysgod y Coed, Llanilar; Miss Jennie Evans yn ei chartref yn 2 Porth y De; Mr Dai a Mrs Glewwen Richards, hwythau ar ei aelwyd yn Heol y Wern. Hefyd Miss Mair Jones sydd wedi symud i gartref Allt-y-Mynydd yn Llanybydder, a phawb o'r ffrindiau yng Nghartref Bodlondeb, heb anghofio am Mrs Annie Mary Davies o'r Cartref hwnnw sydd ar hyn o bryd mewn gwendid mawr yn Ysbyty Bronglais. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb o'r aelodau a gwrandawyr hynny sydd mewn unrhyw anhwylder iechyd ac sydd yn methu dod atom ar brynhawn Sul. Mi ddaw y Gwanwyn cyn bo hir i godi'r galon.

Er Cof

Jane Eirwen Williams, 31 Ffordd Portland, fu farw ar Ionawr 7 yn 82 oed. Darllenodd ei mab, Richard, y gwynfydau yng ngwasanaeth angladd ei fam ddydd Llun Ionawr 21ain yng Nghapel y Morfa. Ac ni fu gwell esiampl o'r 'addfwyn' a'r 'pur o galon' a 'halen y ddaear' na Jane Eirwen. Ni fu neb erioed chwaith yn llai cyhoeddus. Yr oedd hi a'i phriod Cyril (yn briod ers 59 o flynyddoedd) yn ddau nad oedd byth yn mynd i gwmni nifer fawr o bobl (yn ei hachos hi yr oedd hynny yn anodd oherwydd ei hafiechyd hefyd) a dyna pam nad oedd byth yn dod i'r capel. Ond pan fyddai unrhyw gasgliad arbennig, fe fyddai amlen ganddi drwy'r drws ac fe fyddai ei chyfraniad i gynnal bywyd yr eglwys yn gyson ac yn hael. Ond nid dyna pam yr oeddwn i yn ei hystyried yn fraint bod yn weinidog arni, ond oherwydd ei gofal a'i charedigrwydd mawr, ei synnwyr tawel o ddigrifwch, ei ffyddlondeb i eraill – a'r cyfan heb dynnu unrhyw sylw ati ei hun. Un o Nebo ydoedd yn wreiddiol ac fe fyddai cyn-aelodau Seilo yn cofio ei chysylltiad â theulu Rowlands. Yr oedd Jane Eirwen yn chwaer i briod y diweddar Enid Rowlands. Yr oedd hefyd yn perthyn i'r Parchedig D.R.Thomas. Yr oedd yn wraig alluog, ond ni chafodd y cyfle addysgiadol ac yr oedd yn ddigon bodlon ei byd yn gofalu am y teulu, ac yn gofalu am eraill. Gwyn ei byd. Braint oedd cael ei hadnabod. Yr ydym yn

cydymdeimlo yn fawr â Cyril ei phriod ac â Richard a Jimmy, y plant, a Patricia, priod Jimmy. Yn gwbwl nodweddiadol ohoni, yr oedd y rhoddion er cof amdani tuag at *Childline Cymru* neu *Tŷ Agored.*

Gwasanaeth nos Sul 20fed o Ionawr

Roedd llawr Capel Bethel dan ei sang am yr oedfa unedig ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol. Y Parchedig Roy Cooper, Llywydd yr Eglwys Fethodistaidd yn yr Iwerddon oedd y pregethwr gwadd. Swydd am flwyddyn yw swydd Llywydd y Methodistiaid (mae'n cynnwys Gogledd a De Iwerddon) ac mae'r flwyddyn yn un brysur i bob llywydd. Eleni, teithiodd y Parchedig Roy Cooper i wlad Pwyl ac i Albania i dystio dros undeb Cristnogol. Dywedodd mai Iesu yw canolbwynt y ffydd ac enghraifft o hyn yw'r cydweithrediad llawn rhwng y Methodistiaid a'r Catholigion yn Ne Iwerddon. Cafodd ef ei hun ei sefydlu mewn eglwys Gatholig a geiriau allweddol ei anerchiad oedd:
Nid unffurfiaeth mo eciwmeniaeth, ond côt amryliw sy'n cwmpasu holl Gristnogion.

Braf oedd gweld cynrychiolaeth dda o eglwysi Aberystwyth yn yr oedfa hon.

Seiadau arbennig y Garawys

Fe fyddwn eto eleni yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd gydag eglwysi Cymraeg y dref yn ystod tymor y Garawys.

Y Llythyr at yr Effesiaid fydd y maes eleni ac yr ydym yn edrych ymlaen yn fawr at dreulio amser yng nghwmni ein gilydd. Os nad ydych yn arfer dod ar nos Iau, yna mentrwch, dewch yn ystod mis Chwefror, gwnewch rywbeth gwahanol. Angofiwch y syniad o beidio bwyta siocled, neu yfed a gwnewch rhwybeth mwy allweddol i'r bywyd Cristnogol, fel myfyrio ar y Gair.

Nos Iau **Chwefror 7** Capel y Morfa
Chwefror 14 Bethel
Chwefror 21 Seion
Chwefror 28 Capel y Morfa

Ychydig o gwestiynau i feddwl amdanynt

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn ein hanes, wrth weld a chlywed am gyflwr bywydau pobl mewn wahanol rannau o'r byd, (e.e. Kenya, Pakistan, Iraq, plant mewn tlodi yng Nghymru, ayyb), efallai y dylem ofyn cwestiwn neu ddau i ni ein hunain, er enghraifft:-

Pam fod pethau drwg yn digwydd i bobl dda? Mae hwn yn gwestiwn mor fawr fod hyd yn oed llyfr wedi ei ysgrifennu gyda'r un teitl!

Beth yw ystyr bywyd? Pam rydym ni yma? -Wel, trwm yn wir, ond eto i gyd, a oes ateb?

Fe fydd yr ychydig eiriau yma yn cael eu darllen gan bobl a fydd yn mynd i'r Capel, ond, beth sydd yn fwy pwysig; mynd i'r Capel yn gyson neu bod yn gymorth i'n cyd-ddyn yn ein bywyd beunyddiol? A ydyw mynd i'r Capel yn ein gwneud yn fwy ymwybodol o'r 'byd' lleol sydd o'n cylch?

Os yw'r atebion yn gadarnhaol, pam fod yr Henaduriaeth (yr 'Hen Gorff') yn fodlon gweld Capeli yn cael eu gwerthu? Pam fod nifer o gapeli, yn cynnwys ond ychydig o bobl ar y Sul? Hyn er fod enwadau eraill yn llenwi eu hadeiladau?

A yw'r Pregethwr yn rhoi ei neges i'r rhai sydd eisioes yn credu? A oes eisiau tri phen i bregeth fel gofynnodd Pryderi ar fore Sul 23ain o Ionawr am 1047GMT. A ddylai y bregeth gychwyn wrth fynd allan trwy'r drysau?

Faint ohonom sydd yn cofio testun y bregeth wythnos, mis, neu flwyddyn yn ôl? Beth am i mi ddweud *hanner canrif* wrthych? PAM – wel gan fod un testun, sef o'r adnod a welir isod *, yn dal i 'ganu' yn fy meddwl hyd y dydd yma. Meddyliwch am hyn, bob un ohonoch, a beth yw eich ateb chi? Efallai y dylem ei ysgrifennu i gyd ar bapur, a'u cyhoeddi?

A ydym bob amser ym meddwl sut i ddelio ac ymdrin â'n cyd-ddyn? Deallaf nad ydym bob amser yn teimlo mor dda â thro arall. A ddylem wneud y *pethau bach* yn fwy aml?

Mae ddoe yn 'siec' sydd wedi ei diddymu.
Dim ond 'nodyn addewid' yw yfory.
Heddiw yw yr unig 'arian' sydd gennym.
Gadewch i ni ei 'wario' yn ddoeth.

Y mae y nodiadau yma yn gymaint i fy hunan ag i unrhyw un arall.

**Llythyr Paul at y Rhufeiniaid, pennod 1, adnod 16.*

Willliam R. Williams

Morlan

Dweud ei ddweud

Mae'r sesiwn nesaf o *Dweud ei Ddweud* yn cael ei gynnal ar **nos Lun Chwefror 18ed**. Y pwnc fydd *Ynni niwclear - dim dewis?*
Bydd manylion pellach ar wefan Morlan.

Chwilio am Dduw

Y mae'r Parchedig Glyn Conway wedi cael profiad eang o gynnal ac arwain encilion a chyrsiau ar ysbrydolrwydd nid yn unig ym Mhrydain ond hefyd yn Affrica ac India.

Fe fydd yn cynnal pedwar sesiwn yn y Morlan ar gyfer y rhai sydd yn chwilio:

Nosweithiau Mawrth am 8.00: Chwefror 19 a 26, Mawrth 4 ac 11

Fe fydd y sesiynau hyn yn ddwyieithog ac felly yn gyfle i'r di-Gymraeg ac i'r dysgwyr. Os ydych yn ystyried eich hun yn un sy'n chwilio, yna…..dewch. Mae'r cwrs am ddim.

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd

Eglwys Sant Paul
Gwener Mawrth 7 am 2.30

Gwyl Ddewi wahanol

Yn hytrach na glynu i'r nos Lun arferol i gynnal Swper Gŵyl Ddewi eleni y mae'r Gymdeithas yn cynnal Bore Coffi Cymreig ar Ddydd Gŵyl Ddewi, sef **bore Sadwrn Mawrth 1af**.
yn y **MORLAN,** 10.30- 12.00.

Cyfle i gofio Dewi, i gymdeithasu ac i rannu rai o ddoniau cerddorol ein pobl ifanc yn ogystal â Bethan Bryn, Megan Hughes a rhai o blant yr Ysgol Sul.

Ffordd ardderchog i dreulio bore Gŵyl Ddewi.

Dwy weddi'r Grawys

(ar ddechrau'r Grawys yr ydym yn cofio Iesu yn yr anialwch)

Dros eraill mewn anialwch

Dduw'r uchelderau a'r dyfnderau
dygwn atat
y rhai a yrrwyd i'r anialwch
a'r rhai sy'n ymgodymu â phroblemau anodd:
bydded iddynt ddewis bywyd.
Dduw'r goleuni a'r tywyllwch,
dygwn atat
y rhai sy'n gaeth i gyffuriau
a'r rhai a ddallwyd gan rym ac awdurdod:
Bydded iddynt ganfod dy oleuni di.
Dduw'r anifail gwyllt a'r angel sy'n gweini,
dygwn atat
y rhai sy'n ysglyfaeth i drachwant eraill,
y rhai sydd wedi llwyr ymlâdd wrth ofalu am eraill:
Bydded iddynt deimlo dy gyffyrddiad iachusol.
Grist, a gefaist dy demptio ac a orchfygaist,
dygwn ein hunain atat,
wedi'n llethu gan ddewisiadau anodd,
yn ofnus am y dyfodol,
wedi'n llorio o golli rhywun annwyl i ni:
Bydded i ni deimlo diddanwch dy gwmni.
Bydded i ni,
o adnabod presenoldeb Duw ym mhob peth,
ganfod gras i orchfygu

a derbyn coron bywyd

Kate McIlhaga

Arglwydd, tyrd
pan fyddwn yn niffaethwch ein hamheuon
ac yn baglu yn ein hofnau a'n hansicrwydd:
Arglwydd, tyrd i'n hargyhoeddi.
Pan fyddwn yn niffaethwch ein hunigrwydd,
heb neb yn gwmni i ni a neb i rannu gofidiau â hwy:
Arglwydd , tyrd i'n cysuro.
Pan fyddwn yn niffaethwch ein hanobaith,
ein methiant yn ein llethu a'r dyfydol yn dywyll:
Arglwydd, tyrd i'n cyfarwyddo.
Pan fyddwn yn niffaethwch ein tlodi ysprydol,
wedi colli gafael atnat ti ac yn methu gweddio:
Arglwydd, tyrd i'n bendithio.

Elfed ap N. Roberts

Dyddiadur Chwefror 2008

Gwasanaethau'r Sul:Capel y Morfa ac Ebeneser
Chwefror 3 Y Bugail (Cymun hwyr)
10 Y Bugail: Sul cyntaf y Garawys
17 Y Bugail
24 Cynwil Williams, Caerdydd

Cymdeithas y Capel
Nos Lun Chwefror 11 *Fy newis i: pwy yw pwy?*
Mary Jones Morris,Walford Gealy, Beverly Smith. (Dewch â lluniau ohonoch eich hun yn fabi neu'n blentyn-bach-del)

Gweddi a Choffi pob bore Mawrth yn Ystafell Dawel, Morlan

Chwefror 7 ymlaen **Astudiaethau Undebol** pob nos Iau (gw. t.8)

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol
Chwefror 4: Canolfan Sant Paul

Swyddogaethau Chwefror 2008

Blaenor y mis: Ann Davies
Porthorion: Ifan Moelwyn Hughes D.Geraint Jones
Rhidian Griffiths Mattie Jones
Ebeneser Wyn Thomas

Blodau'r Cysegr	Capel y Morfa	Ebeneser
Chwefror 3	Dilys Lloyd	Gladys Adams
10	Bethan Bryn	Blodwen Isaac
17	Mair Griffiths	Denise Morgan
24	Gwenan a Siân	Hilda Williams

Llestri Cymun
Chweror 3 (Hwyr) Iola Jones Celia Jones
Gwenlais Jones Megan Hughes

Cynorthwyr ariannol
Chwefror 3 Eira Williams, Hywel Lloyd
10 Hefina Wright, Wynford Evans
17 Glenys James, Miriam Garratt
24 Mair Griffiths, William Griffiths

Tregerddan
Wyn Hughes a John Roberts

Golygyddion y mis hwn yw Hywel Lloyd a Laurie Wright. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Chwefror o PERTHYN, os gwelwch yn dda, atyn nhw neu'r Bugail erbyn dydd Gwener, 15 Chwefror.